




Sut gallwn ni eich cefnogi chi?

Gallwn ariannu hyd at 50% o gostau eich prosiect (neu 75% i grwpiau cymunedol).

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg. Maent yn cael eu hasesu gan Bwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ar sail y cyntaf i'r felin, o fewn cyfyngiadau ariannol blynyddol y cynllun. Mae Pwyllgor y Gronfa fel arfer yn cwrrdd bedair gwaith y flwyddyn i ystyried ceisiadau. Mae'n cynnwys Aelodau Awdurdod y Parc a'r Aelodau Ymgynghorol a ddaw o blith y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

 Cafodd prosiect adeilad bêls gwair cynaliadwy *Mencap Sir Benfro* yn Ystafbwl ei wireddu yn sgil nawdd y Gronfa. Bellach mae'n gartref i ofod cymunedol, caffi a siop sy'n gwerthu cynnyrch o *erddi Mencap*.



Cysylltwch


Os ydych yn meddwl y gallai eich prosiect fod yn gymwys am nawdd, byddem wrth ein boddau yn clywed gennych. Cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa i drafod eich syniadau:

01646 624800

(gofynnwch am weinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy)

sdf@pembrokeshirecoast.org.uk

www.arfordirpenfro.cymru/cdc


 Mynediad i odyn grochenwaith ganoloesol sydd wedi'i dadorchuddio ac sy'n cael ei chadw yn *Neuadd Goffa Trefdraeth*, a hefyd i ddehongli'r odyn.

Trefdraeth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)

Yn cefnogi prosiectau sy'n dod â buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol tymor hir i bobl Sir Benfro.



 Paneli ffotofoltäig wedi'u cyllido gan CDC yn *Cafe Môr* yn Freshwater West.

Mae'r Gronfa wedi **cynorthwyo dros 200 o brosiectau** ers 2000.

Allwn ni helpu eich prosiect chi?



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Sut mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio?

Pa fath o brosiectau ydym ni'n eu cefnogi?

- Prosiectau arloesol sy'n datblygu ac yn profi ffyrdd newydd o fyw, sy'n cydbwysu anghenion pobl, yr amgylchedd a'r economi leol
- Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddangos atebion ymarferol ar gyfer ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy
- Prosiectau sydd er budd y Parc Cenedlaethol ac/neu ei gymunedau
- Prosiectau sy'n cyflawni un neu ragor o'r pethau canlynol :
 - helpu i gyflawni manteision iechyd a lles mynediad a hamdden yn yr awyr agored
 - gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd, planhigion ac anifeiliaid
 - defnyddio adnoddau naturiol yn ofalus
 - gwella'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth o fyw'n gynaliadwy
 - cydnabod anghenion pawb
 - cyfrannu at gymunedau cadarn, llewyrchus
 - darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol a thwf economaidd
 - diogelu'r diwylliant a'r drefnadaeth leol

Pwy ydym ni'n eu cefnogi?

- Sefydliadau, grwpiau (gan gynnwys grwpiau cymunedol), unigolion a busnesau
- Mentrau lleol, rhai ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan neu rai ar gyfer Sir Benfro gyfan



“Heb nawdd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ni fyddai'r prosiect yma wedi gallu mynd yn ei flaen ac ni fyddai'r fferm bryfed yn bodoli fel y mae heddiw. Cymerodd y Gronfa risg ar brosiect arloesol ac unigryw a hoffwn ddiolch i bwyllgor y Gronfa ac i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.”

Dr Sarah Beynon,
Dr Beynon's Bug Farm

“Gwnaethom gais i'r Gronfa oherwydd ein bod yn teimlo ei bod yn berthnasol i'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Credaf ei bod yn bwysig canfod y nawdd cywir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Roeddem yn gwybod y gallem gyflwyno prosiect *Coleg y Môr* yr Ymddiriedolaeth i banel wyneb yn wyneb sydd, er ei fod braidd yn frawychus, yn caniatáu ichi gyfleu eich syniadau yn well nag ar ddarn o bapur.”

Cliff Benson, *Sea Trust*

“Mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i'n heffeithlonrwydd ariannol a'n heffeithlonrwydd o ran gweithgynhyrchu ac wedi ein galluogi i ailfuddsoddi'r arbedion hyn yn ein busnes drwy greu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.”

Louise Harris, *Thomas Joinery*

Mae CDC wedi cefnogi:



🌐 *Ty Solar*, prototeip o eco-gartref fforddiadwy wedi'i adeiladu o bren Cymru gan bobl leol a chan ddefnyddio deunyddiau lleol.



🌐 Bu'n bosibl i *Thomas Joinery* gyflogi rheolwr gweithdy a chynorthwydd gweinyddol.



🌐 Yn rhan o brosiect *Wildfuels* dan nawdd y Gronfa, mae cyrs yn cael eu torri a'u cynaeafu er mwyn cynorthwyo i reoli cynefin bywyd gwylt y gwlyptir.



🌐 Mae'r Gronfa wedi ariannu prosiectau i reoli ymlediad rhywogaethau o blanhigion estron goresgynnol ar Ben Cemaes ac yng Nghwm Gwaun.



🌐 Tanc antur pyllau glan môr ac atyniadau eraill yn sw fôr Sea Môr ar gyfer prosiect *Coleg y Môr* y *Sea Trust*.



🌐 Prosiect *Solva Care* sy'n recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i gefnogi, helpu a gofalu am eraill yn eu cymuned.